



CYFRES YR HAF 2017



Ffocws ar Gymwysterau Safon UG a Safon Uwch Diwygiedig

Beth sy'n newydd yr haf hwn?

Mae naw cymhwyster Safon UG newydd ar gael am y tro cyntaf yr haf hwn:

- Addysg Gorfforol
- Almaeneg
- Astudiaethau Crefyddol
- Cerddoriaeth
- Cymraeg Ail Iaith
- Daearyddiaeth
- Drama
- Ffrangeg
- Sbaeneg

Mae yna hefyd cymwysterau Safon Uwch newydd ar gael am y tro cyntaf mewn 14 pwnc:

- Bioleg
- Busnes
- Celf a Dylunio
- Cemeg
- Cyfrifiadureg
- Cymdeithaseg
- Cymraeg (Iaith Gyntaf)
- Economeg
- Ffiseg
- Hanes
- Llenyddiaeth Saesneg
- Saesneg Iaith
- Saesneg Iaith a Llenyddiaeth
- Seicoleg



CYFRES YR HAF 2017



Beth yw nodweddion y cymwysterau Safon UG a Safon Uwch newydd yng Nghymru?

Mae cymwysterau Safon UG a Safon Uwch yn parhau i fod wedi'u paru, hynny yw, mae'r cymhwyster UG yn cyfrannu tuag at gymhwyster Safon Uwch o hyd. Mae'r raddfa graddio hefyd yn aros yr un fath: A i E ar gyfer UG ac A* i E ar gyfer Safon Uwch. Am y cymwysterau newydd, bydd asesiadau UG yn cyfrannu 40% tuag at y cymhwyster Safon Uwch, tra yn flaenorol oedd yn cyfrannu 50%.

Bydd pob cymhwyster UG a Safon Uwch yn cynnwys unedau o hyd. Gall myfyrwyr ail-sefyll pob uned unwaith yn unig, gyda'r canlyniad gwell o'r ddau gynnig yn cyfrannu at y radd derfynol.

Mae cymwysterau UG a Safon Uwch hefyd yn newid yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi gweithio gyda'r rheoleiddwyr yn y gwledydd hynny i lunio [taflen wybodaeth](#) i esbonio'r newidiadau hyn.

Mae'r cynnwys a threfniadau asesu ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau yn debyg yn y tair gwlad. Mae rhai eithriadau pwysig megis asesu sgiliau ymarferol yn Safon Uwch Biolog, Cemeg a Ffiseg. Yn y pynciau hyn yng Nghymru, mae asesu tasgau ymarferol yn cyfrannu at y radd gyffredinol, ond yn Lloegr caiff hyn ei ddyfarnu fel gradd ar wahân.

Pwy sy'n astudio'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Ar lefel UG a Safon Uwch, mae cofrestriadau wedi gostwng eto eleni. Ar lefel UG, mae cofrestriadau cyffredinol wedi gostwng 7% o gymharu â 2016. Ar lefel Safon Uwch, mae cofrestriadau 6% yn is na chofrestriadau 2016 ac 8% yn is na chofrestriadau 2015.

Ar lefel UG, mae tua thri chwarter o'r cymwysterau sydd ar gael wedi gweld gostyngiad yn nifer y

cofrestriadau ac ar lefel Safon Uwch, mae dros hanner y cymwysterau sydd ar gael wedi gweld gostyngiad yn nifer y cofrestriadau.


Gallai'r newidiadau hyn olygu bod canlyniadau UG a Safon Uwch yr haf hwn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol am fod natur y garfan sy'n sefyll yr arholiadau hyn wedi newid efallai.

Rhagor o wybodaeth:

www.cymwysteraucymru.org

E: [ymholiadau@cymwysteraucymru.org](mailto:yholiadau@cymwysteraucymru.org)

Ff: 0333 077 2701

 [@cymwysterau_cym](https://twitter.com/cymwysterau_cym)

